Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

# Fframwaith Rheoleiddio Comisiynydd y Gymraeg

**Mai 2026**

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1 | Cefndir a chyd-destun | 1 |
| 2 | Ein cyfundrefn reoleiddio | 2 |
| | Safonau'r Gymraeg | 2 |
| | Cynlluniau Iaith Gymraeg | 3 |
| 3 | Ein Dull o Gyd-Reoleiddio | 4 |
| 4 | Deilliannau Rheoleiddio | 5 |
| 5 | Ein hegwyddorion rheoleiddio | 7 |
| | Ystyriaethau wrth reoleiddio | 7 |
| 6 | Ein model ar gyfer hyrwyddo cydymffurfiaeth | 9 |
| | Haenau'r model o hyrwyddo cydymffurfiaeth | 9 |
| 7 | Cydweithio â sefydliadau rheoleiddio a chraffu eraill | 12 |

# 1 Cefndir a chyd-destun

1.1 Rydym wedi penderfynu cyhoeddi'r Fframwaith Rheoleiddio hwn er mwyn egluro sut y byddwn yn gweithredu ein rhaglen waith o reoleiddio Safonau'r Gymraeg a chynlluniau iaith Gymraeg, gan gynnwys ein hymagwedd at hyrwyddo, cefnogi a sicrhau cydymffurfiaeth.

1.2 Drwy ein gwaith rheoleiddio, rydym yn gweithredu rhaglen o weithgareddau sydd wedi'u cynllunio i alluogi a gwella cydymffurfiaeth, drwy ddarparu eglurder, cyngor a chefnogaeth i sefydliadau, yn ogystal â monitro ac asesu cydymffurfiaeth â dyletswyddau statudol, a chymryd camau pellach lle bo hynny'n briodol.

1.3 Cyhoeddwyd ein Fframwaith Rheoleiddio cyntaf yn Ebrill 2016, ar adeg cyflwyno'r safonau cyntaf. Cyhoeddwyd fframwaith diwygiedig yn 2021, a roddodd fwy o bwyslais ar werthuso effaith y safonau, yn ogystal â'r angen i gefnogi sefydliadau i ddeall a chymhwyso'r gofynion yn ymarferol.

1.4 Pwrpas y Fframwaith Rheoleiddio diwygiedig hwn yw egluro'r dull cyffredinol a fabwysiedir gennym wrth reoleiddio cydymffurfiaeth. Mae'n nodi sut y byddwn yn blaenoriaethu gwaith hyrwyddo cydymffurfiaeth, gan gynnwys darparu arweiniad, canllawiau a chefnogaeth, ochr yn ochr â gweithgarwch monitro a rheoleiddio ffurfiol.

1.5 Mae'r Fframwaith hwn hefyd yn adlewyrchu symudiad bwriadol tuag at ddull o gyd-reoleiddio, lle mae'r Comisiynydd a sefydliadau sy'n ddarostyngedig i'r safonau yn rhannu cyfrifoldeb am sicrhau bod dyletswyddau statudol yn cael eu deall, eu hymgorffori a'u gweithredu'n effeithiol. Yn y cyd-destun hwn, mae'r Fframwaith yn pwysleisio pwysigrwydd deialog barhaus, eglurder disgwyliadau, a chydweithio adeiladol er mwyn galluogi cydymffurfiaeth gynaliadwy.

1.6 Yn ganolog i'r dull hwn mae ffocws clir ar y deilliannau rheoleiddio rydym yn ceisio'u cyflawni, sef gwell profiad a mynediad cyfartal i wasanaethau Cymraeg i ddefnyddwyr, yn hytrach na chydymffurfiaeth dechnegol yn unig.

1.7 Yn unol ag egwyddorion arfer da ym maes rheoleiddio, byddwn yn defnyddio asesiadau risg i flaenoriaethu'r defnydd o amser ac adnoddau, gan ganolbwyntio ar weithgareddau – gan gynnwys gwaith hyrwyddo cydymffurfiaeth – sydd fwyaf tebygol o arwain at welliant cynaliadwy mewn cydymffurfiaeth.

1.8 Mae Rhan 5 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011[1] yn rhoi pwerau gorfodi i'r Comisiynydd. Nid yw'r Fframwaith hwn yn ymwneud yn uniongyrchol â'n gweithgarwch gorfodi; ceir manylion pellach yn ein Polisi Gorfodi[2]. Nid yw'r dulliau a'r egwyddorion a nodir yn y Fframwaith hwn yn cyfyngu nac yn amharu ar y pwerau gorfodi hynny, ond yn hytrach yn egluro sut y cânt eu hategu gan ymagwedd rhagweithiol o hyrwyddo cydymffurfiaeth.

[1] https://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/1/part/5/welsh
[2] https://www.comisiynyddygymraeg.cymru/rheoleiddio/polisi-gorfodi

# 2 Ein cyfundrefn reoleiddio

2.1 Ar hyn o bryd, mae dwy gyfundrefn reoleiddio yn bodoli mewn perthynas â dyletswyddau ieithyddol yng Nghymru: Safonau'r Gymraeg, a chynlluniau iaith Gymraeg a gymeradwywyd o dan ddeddfwriaeth flaenorol.

2.2 Mae Safonau'r Gymraeg, a gyflwynwyd o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yn gosod dyletswyddau statudol penodol ar sefydliadau unigol, gan nodi'n glir y gwasanaethau a'r gweithgareddau y mae'n rhaid eu darparu yn Gymraeg. Mae'r safonau'n rhan o drefn reoleiddio sydd â mecanweithiau monitro, ymchwilio a gorfodi clir, ac maent wedi'u cynllunio i sicrhau cysondeb, tryloywder a thegwch ar draws sectorau a sefydliadau.

2.3 Mae cynlluniau iaith Gymraeg, ar y llaw arall, yn seiliedig ar ymrwymiadau unigol a wnaed gan sefydliadau i drin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal. Er bod llawer o'r cynlluniau hyn wedi chwarae rhan bwysig wrth ddatblygu darpariaeth Gymraeg dros amser, maent yn amrywio'n sylweddol o ran eu cwmpas, eu manylder a'u dull gweithredu, ac nid ydynt yn rhan o'r un drefn reoleiddio statudol â'r safonau.

2.4 Yn y cyd-destun hwn, rydym wedi mynegi'n gyson ein dyhead strategol i symud yn gynyddol oddi wrth ddibyniaeth ar gynlluniau iaith tuag at gyfundrefn lle mae sefydliadau yn cael eu dwyn o dan Safonau'r Gymraeg. Rydym yn ystyried bod hyn yn cynnig sail fwy cadarn, fwy cyson a mwy tryloyw ar gyfer rheoleiddio hawliau ieithyddol y cyhoedd.

## Safonau'r Gymraeg

2.5 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yw'r ddeddfwriaeth wnaeth greu safonau'r Gymraeg.

2.6 Mae safonau'r Gymraeg yn egluro sut mae disgwyl i sefydliadau ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd. Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r safonau yn golygu dylai sefydliadau beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ynghyd â hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg.

2.7 Mae sefydliadau'n gorfod cydymffurfio â safonau yn y meysydd canlynol:

- Cyflenwi gwasanaethau
- Llunio polisi
- Gweithredu
- Hybu
- Cadw cofnodion

2.8 Bwriad y safonau yw ei gwneud yn fwy eglur pa wasanaethau y gall pobl ddisgwyl eu cael yn Gymraeg, a bod y gwasanaethau hynny yn gyson.

2.9 Hysbysiadau cydymffurfio yw'r dogfennau cyfreithiol sy'n nodi pa safonau (h.y. dyletswyddau) y mae'n rhaid i sefydliadau gydymffurfio â nhw, ac erbyn pryd. Y Comisiynydd sy'n rhoi hysbysiadau cydymffurfio i sefydliadau, ac mae'r rhain i'w gweld ar wefan y Comisiynydd.

## Cynlluniau Iaith Gymraeg

2.10 Mae sefydliadau cyhoeddus nad ydynt ar hyn o bryd yn gweithredu safonau'r Gymraeg yn parhau i weithredu cynlluniau iaith o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

2.11 Sefydlodd Deddf 1993 yr egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus ac wrth weinyddu cyfiawnder yng Nghymru, y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.

2.12 Mae cynlluniau iaith Gymraeg yn egluro pa wasanaethau fydd yn cael eu darparu yn Gymraeg yn unol â'r egwyddor hon, a'r Comisiynydd sy'n gyfrifol am reoleiddio eu gweithrediad.

# 3 Ein Dull o Gyd-Reoleiddio

3.1 Rydym yn rheoleiddio er mwyn sicrhau cynnydd ystyrlon yn y cyfleoedd sydd ar gael i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a thrwy wneud hynny yn cyfrannu at ein gweledigaeth o Gymru lle gall pobl ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol yn eu bywydau bob dydd.

3.2 Er mwyn cyflawni'r nod hwn, rydym yn mabwysiadu dull o gyd-reoleiddio wrth weithredu ein swyddogaethau rheoleiddio, gan gyfuno sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion statudol â chefnogi gwelliant parhaus a chyflawni deilliannau ystyrlon i ddefnyddwyr gwasanaethau Cymraeg.

3.3 Nid yw'r dull hwn yn gyfyngedig i sicrhau cydymffurfiaeth dechnegol yn unig. Rydym yn ceisio dylanwadu ar newid cynaliadwy yn y ffordd y mae sefydliadau sy'n ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg, neu sy'n gweithredu cynlluniau iaith Gymraeg, yn cynllunio, yn trefnu ac yn darparu gwasanaethau Cymraeg.

3.4 Yn allweddol i'r dull hwn mae disgwyliad clir hefyd y bydd arweinyddiaeth uwch a threfniadau llywodraethu priodol o fewn sefydliadau yn cefnogi perchnogaeth gynaliadwy o ddyletswyddau ieithyddol, gan gynnwys dyrannu adnoddau, datblygu capasiti a monitro perfformiad.

3.5 Disgwylir i sefydliadau gymryd perchnogaeth glir o'u dyletswyddau ieithyddol, gan ymgorffori'r gofynion perthnasol yn eu trefniadau llywodraethu, cynllunio a gweithredu. Mae hyn yn cynnwys bod yn rhagweithiol wrth nodi a rhannu heriau, risgiau neu fethiannau posibl, a cheisio llywio gwelliannau'n barhaus.

3.6 Yn allweddol i'r berchnogaeth hon mae disgwyliad clir y bydd arweinyddiaeth uwch a threfniadau llywodraethu priodol o fewn sefydliadau yn cefnogi cyflawniad cynaliadwy o ddyletswyddau ieithyddol, gan gynnwys trwy ddyrannu adnoddau, datblygu capasiti, a monitro perfformiad.

3.7 Ar yr un pryd, mae'r Comisiynydd yn ymrwymedig i ddarparu eglurder, cysondeb a chefnogaeth briodol er mwyn galluogi sefydliadau i ddeall a chymhwyso eu dyletswyddau'n ymarferol. Mae hyn yn cynnwys darparu arweiniad a chanllawiau, hwyluso deialog adeiladol, a defnyddio ymyriadau rheoleiddiol mewn modd cymesur, amserol ac wedi'i dargedu.

3.8 Drwy'r dull hwn o gyd-reoleiddio, ein nod yw atal methiannau y gellir eu hosgoi a chefnogi gwelliant parhaus, tra'n cadw'r gallu i ddefnyddio pwerau gorfodi pan fo angen ac yn briodol, er mwyn diogelu buddiannau defnyddwyr gwasanaethau Cymraeg.

# 4 Deilliannau Rheoleiddio

4.1 Rydym yn rheoleiddio gyda phwrpas penodol a strategol, ac yn glir iawn am yr hyn rydym yn ceisio ei gyflawni wrth wneud penderfyniadau rheoleiddio. Yn gyson â'n hymrwymiad i weithredu dull o gyd-reoleiddio, rydym wedi pennu a chyhoeddi deilliannau rheoleiddio.

4.2 Ein bwriad drwy gyflwyno'r deilliannau rheoleiddio yw iddynt, ymysg pethau eraill:

- osod safonau'r Gymraeg a'n gwaith rheoleiddio yng nghyd-destun y weledigaeth genedlaethol o gynyddu nifer siaradwyr Cymraeg a chynyddu defnydd yr iaith
- ddarparu datganiadau tryloyw cyhoeddus o'r hyn yr ydym yn bwriadu ei gyflawni, a sut y byddwn yn gallu dangos pan fyddwn wedi ei gyflawni
- sicrhau bod ein gweithgareddau rheoleiddio yn canolbwyntio ar ganlyniadau i ddefnyddwyr y Gymraeg ac yn cael y traweffaith mwyaf ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg
- lliniaru'r risg bod sefydliadau yn canolbwyntio ar gydymffurfiaeth gaeth yn hytrach na chanlyniadau da i ddefnyddwyr y Gymraeg.

4.3 Rydym am i'r deilliannau hyn gynrychioli nodau ac amcanion cyffredin sefydliadau, defnyddwyr y Gymraeg yn ogystal â ninnau fel Comisiynydd y Gymraeg, a'n bod i gyd yn eu perchnogi.

4.4 Bydd yr angen i gyflawni'r deilliannau hyn yn llywio ein dull a'n hymagwedd reoleiddio, a byddwn yn defnyddio ein hadnoddau lle mae'r risgiau i gyflawniad y deilliannau yma ar eu mwyaf.




4.5 Mae'r adran ganlynol yn nodi'r egwyddorion sy'n llywio'r ffordd rydym yn cymhwyso'r dull hwn o gyd-reoleiddio a'r ffocws ar ddeilliannau wrth reoleiddio Safonau'r Gymraeg a chynlluniau iaith Gymraeg.

# 5 Ein hegwyddorion rheoleiddio

5.1 Wrth weithredu ein swyddogaethau rheoleiddio, rydym yn cael ein llywio gan set glir o egwyddorion sy'n cefnogi cydymffurfiaeth gynaliadwy, yn gwella profiad defnyddwyr gwasanaethau Cymraeg, ac yn sicrhau bod ein gwaith yn gymesur, yn gyson ac yn effeithiol.

5.2 Rydym yn mabwysiadu dull rheoleiddio **sy'n seiliedig ar risg**, gan flaenoriaethu ein hadnoddau a'n hymyraethau lle mae'r risg i fuddiannau defnyddwyr y Gymraeg ar ei mwyaf, neu lle ceir y potensial mwyaf i wella deilliannau rheoleiddio.

5.3 Rydym yn ceisio **atal methiannau y gellir eu hosgoi** drwy eglurder disgwyliadau, ymgysylltu cynnar ac arweiniad priodol. Fodd bynnag, lle nad yw hyn yn arwain at welliant digonol, byddwn yn ymyrryd mewn modd cadarn a chymesur.

5.4 Rydym yn gweithredu'n **deg ac yn gyson**, gan sicrhau bod sefydliadau mewn amgylchiadau tebyg yn cael eu trin mewn ffordd debyg, tra'n parhau i ystyried cyd-destun penodol, effaith a lefel y risg wrth wneud penderfyniadau rheoleiddio.

5.5 Mae **tryloywder ac atebolrwydd** yn ganolog i'n dull. Byddwn yn egluro sail ein penderfyniadau rheoleiddio, ac yn ceisio sicrhau bod sefydliadau a'r cyhoedd yn deall sut a pham y caiff ymyriadau rheoleiddiol eu dewis.

5.6 Dylid darllen yr egwyddorion hyn ochr yn ochr â'r adrannau ar gyd-reoleiddio a deilliannau rheoleiddio, gan eu bod yn darparu'r fframwaith dehongli ar gyfer y gyfundrefn reoleiddio a nodir yn yr adran hon.

## Ystyriaethau wrth reoleiddio

5.7 Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn datgan bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, ac yn gwneud darpariaeth ar gyfer:

- hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg
- gosod Safonau'r Gymraeg, gan gynnwys dyletswyddau i gydymffurfio â'r safonau hynny a'r hawliau sy'n deillio o allu gorfodi
- ymchwilio i ymyrraeth â rhyddid unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg.

5.8 Wrth reoleiddio, rydym yn rhoi sylw penodol i effaith ein hymyrraeth ar brofiadau defnyddwyr y Gymraeg. Mae'r ystyriaeth hon yn ganolog i'n gwaith, ac yn llywio'r ffordd rydym yn gweithio tuag at gynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg.

5.9 Er mwyn cyflawni hyn, mae'n bwysig deall a chofnodi profiadau ieithyddol defnyddwyr, gan nodi'r rhwystrau sy'n eu hatal rhag defnyddio'r Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys dadansoddi gwybodaeth am gydymffurfiaeth sefydliadau, a ffurfio barn broffesiynol ar sail tystiolaeth.

5.10 Wrth ffurfio barn broffesiynol, byddwn yn rhoi pwyslais ar ddeall tueddiadau a phatrymau dros amser, yn ogystal ag ystyried achosion unigol, er mwyn adnabod diffygion systemig a thargedu ymyriadau sy'n debygol o arwain at welliant cynaliadwy.

5.11 Byddwn yn gweithredu ar y canfyddiadau hyn drwy ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau a phwerau rheoleiddio, gan dargedu ein hadnoddau lle mae'r angen a'r risg i ddeilliannau rheoleiddio ar eu mwyaf.

5.12 Wrth reoleiddio perfformiad a chydymffurfiaeth sefydliadau, ein prif amcanion yw:

- hyrwyddo a sicrhau cydymffurfiaeth
- cau bylchau gwybodaeth a gwella ein dealltwriaeth o risgiau a diffygion
- hybu hunan-reoleiddio a pherchnogaeth gan sefydliadau
- gweithredu ar ddiffygion mewn modd cymesur ac amserol.

5.13 Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, byddwn yn defnyddio cymysgedd o ddulliau rheoleiddio, gan gynnwys:

- gwirio a monitro uniongyrchol
- gwneud cais am dystiolaeth ysgrifenedig
- cyfarfod ac ymgysylltu â sefydliadau
- ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau
- cynnal ymchwiliadau lle ceir amheuon o fethiant
- casglu a rhannu arferion effeithiol
- cynnal gweithgareddau addysgol
- darparu cyngor ac arweiniad.

# 6 Ein model ar gyfer hyrwyddo cydymffurfiaeth

6.1 Mae ein model ar gyfer hyrwyddo cydymffurfiaeth yn darparu fframwaith clir ar gyfer sut rydym yn monitro, yn asesu ac yn cefnogi cydymffurfiaeth â Safonau’r Gymraeg a chynlluniau iaith Gymraeg.

6.2 Nod y model yw galluogi sefydliadau i ddeall a chyflawni eu dyletswyddau ieithyddol, ac ar yr un pryd sicrhau bod unrhyw ymyrraeth reoleiddiol yn gymesur, yn seiliedig ar risg, ac yn canolbwyntio ar yr effaith ar ddefnyddwyr gwasanaethau Cymraeg. Caiff y model ei lywio gan yr egwyddor o ddefnyddio’r ymyrraeth leiaf sydd ei hangen i gyflawni’r nod, gan geisio atal methiannau y gellir eu hosgoi drwy eglurder, ymgysylltu a chefnogaeth gynnar, cyn symud at gamau mwy ffurfiol lle bo hynny’n briodol.

6.3 Caiff y model ei weithredu drwy gynllun hyrwyddo cydymffurfiaeth, a fydd yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, cyfres o ddigwyddiadau, sesiynau ymgysylltu a gweithgareddau cefnogi drwy gydol y flwyddyn. Mae’r rhaglen digwyddiadau hyrwyddo cydymffurfiaeth wedi ei chyhoeddi ar wefan y Comisiynydd ac yn cael ei diweddaru yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn.

6.4 Nid yw’r model hwn yn dibynnu ar un mecanwaith penodol, ond ar gasglu a dehongli gwybodaeth o ystod eang o ffynonellau. Byddwn yn tynnu ar ganfyddiadau gwaith thematig, adroddiadau, arolygon a phrofiad gweithredol i gynnig arweiniad, egluro disgwyliadau ac i lywio esblygiad parhaus y fframwaith rheoleiddio ei hun.

## Haenau’r model o hyrwyddo cydymffurfiaeth

6.5 Mae’r model yn gweithredu ar draws pedair haen gysylltiedig.




### Haen 1: Casglu gwybodaeth a gwirio cydymffurfiaeth

6.6 Mae ein gwaith i hyrwyddo cydymffurfiaeth yn tynnu ar ystod eang o ddulliau a ffynonellau gwybodaeth, gan gynnwys:

- Gwirio uniongyrchol, megis cyrchu gwasanaethau fel defnyddiwr go iawn (e.e. gwasanaethau ffôn, derbynfeydd), a gwirio deunyddiau cyhoeddus fel gwefannau, cyfryngau cymdeithasol, dogfennau a gwasanaethau ar-lein;

- Gwirio cydymffurfiaeth â safonau atodol a dyletswyddau cadw cofnodion (neu ddyletswyddau cyfatebol mewn cynlluniau iaith), er mwyn asesu a yw sefydliadau:

    - yn rhoi gwybod yn eglur i ddefnyddwyr am eu darpariaeth Gymraeg
    - yn meddu ar drefniadau digonol i fonitro cydymffurfiaeth
    - yn hyrwyddo'r ddarpariaeth Gymraeg
    - ac yn delio'n briodol ag unrhyw gwynion.

- Cais am dystiolaeth ysgrifenedig, lle gofynnir i sefydliadau ddarparu gwybodaeth neu ddogfennau perthnasol er mwyn dangos sut maent yn cydymffurfio.

Mae'r dulliau hyn yn darparu cymysgedd o dystiolaeth ffurfiol am berfformiad sefydliadau.

### Haen 2: Deall profiad defnyddwyr a thystiolaeth ansoddol

6.7 Lle bo angen deall perfformiad sefydliad yn ddyfnach, byddwn yn defnyddio dulliau ymgysylltu ansoddol, gan gynnwys:

- cynnal grwpiau trafod neu waith ymgysylltu strwythuredig
- cynnal arolygon ar-lein neu gasglu adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau.

Mae'r dulliau hyn yn ein helpu i ddeall profiad go iawn defnyddwyr y Gymraeg, nodi rhwystrau, a rhoi cyd-destun i dystiolaeth arall.

### Haen 3: Asesu risg a phenderfynu ar ymateb priodol

6.8 Caiff yr holl wybodaeth a gasglwyd ei dwyn ynghyd i ffurfio barn broffesiynol ynghylch lefel cydymffurfiaeth a risg. Fel rhan o'r broses hon, byddwn yn ystyried:

- natur a difrifoldeb unrhyw fethiannau posibl
- a yw problemau'n unigol neu'n systemig
- yr effaith bosibl ar brofiad defnyddwyr y Gymraeg.

6.9 Os na cheir sicrwydd uchel o gydymffurfiaeth, byddwn yn ystyried pa gamau sydd fwyaf priodol, gan weithredu'n gymesur ac yn raddol.

### Haen 4: Ymyrraeth reoleiddiol a chamau pellach

6.10 Gall y camau gweithredu sydd ar gael i ni, yn unol â'r egwyddor o ddefnyddio'r ymyrraeth leiaf, gynnwys:

- atgoffa sefydliadau o ofynion y safonau neu gynlluniau iaith
- darparu cyngor, arweiniad neu gyfeirio at god(au) ymarfer
- cynnal cyfarfod i ddod o hyd i ddatrysiad i broblem benodol
- ysgrifennu at sefydliad gan wahodd sylwadau i'w hystyried cyn penderfynu a ddylid ymchwilio
- cynnal gweithgareddau addysgol neu rannu enghreifftiau o arferion effeithiol
- llunio dogfennau cyngor neu gynnal gwaith thematig i ddatrys problemau systemig
- cynnal arolygon a chyhoeddi canfyddiadau
- cyhoeddi adroddiadau (gan gynnwys adroddiadau blynyddol) ar ganfyddiadau perfformiad er mwyn cefnogi gwelliant.

6.11 Lle nad yw'r camau hyn yn arwain at welliant digonol, neu lle mae'r risg i ddefnyddwyr yn sylweddol, gallwn uwch gyfeirio i ymchwiliad statudol ac, lle bo'n briodol, defnyddio'r pwerau gorfodi sydd ar gael o dan Ran 5 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

# 7 Cydweithio â sefydliadau rheoleiddio a chraffu eraill

7.1 Mae gennym gyfrifoldeb cyffredinol i gydweithio'n effeithiol â sefydliadau rheoleiddio a chraffu eraill yng Nghymru, er mwyn ychwanegu gwerth, lleihau baich diangen ar sefydliadau, a chyfrannu at well gwasanaethau a chanlyniadau gwell i ddinasyddion Cymru.

7.2 Mae nifer o reoleiddwyr a sefydliadau statudol eraill yng Nghymru sydd â chyfrifoldebau a dyletswyddau penodol mewn perthynas â'r Gymraeg, neu sydd â dylanwad uniongyrchol ar ansawdd a hygyrchedd gwasanaethau Cymraeg. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, Medr, Cymwysterau Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru, ymhlith eraill. Mae gan bob un o'r sefydliadau hyn gylch gwaith penodol, ac mae'n bwysig bod y rolau hynny'n cael eu deall a'u parchu.

7.3 Yn y cyd-destun hwn, byddwn yn ceisio meithrin perthnasoedd gwaith adeiladol â sefydliadau o'r fath, gan ymgysylltu a rhannu gwybodaeth mewn modd priodol a chymesur. Nod y gwaith hwn yw sicrhau bod gweithgarwch rheoleiddio yn cael ei gydlynu lle bo hynny'n briodol, ac na cheir bylchau na dyblygu rheoleiddiol a allai danseilio effeithiolrwydd y drefn neu greu dryswch i sefydliadau a'r cyhoedd.

7.4 Wrth gydweithio yn y modd hwn, bydd y Comisiynydd yn parhau i arfer ei swyddogaethau statudol yn annibynnol, gan sicrhau bod unrhyw drefniadau cydweithio yn ategu – ac nid yn tanseilio – ei rôl reoleiddiol. Drwy weithio ar y cyd â rheoleiddwyr eraill, nod y Comisiynydd yw cyfrannu at system reoleiddio fwy cydlynol, effeithlon ac effeithiol, sy'n cefnogi cyflawni deilliannau cadarnhaol i ddefnyddwyr y Gymraeg ar draws gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.